

**Arolygiad o dan Adran 28
Deddf Addysg 2005**

Adroddiad ar ansawdd addysg yn

**Ysgol Gynradd Bontnewydd
Bontnewydd
Gwynedd
LL55 2UF**

Rhif yr ysgol: 6612122

Dyddiad yr arolygiad: 30/11/09

gan

**Gareth Wyn Roberts
17166**

Dyddiad cyhoeddi: 04/02/10

O dan rif contract Estyn: 1101209

® Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2010: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategoriâu penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Cyflwyniad

Arolygwyd Ysgol Gynradd Bontnewydd fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Gynradd Bontnewydd rhwng 30/11/09 a 02/12/09, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Gareth Wyn Roberts. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae adroddiadau Estyn yn dilyn ei arweiniad ar gyfer ysgrifennu a golygu adroddiadau, sydd ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk). Mae'r tabl isod yn dangos y termau a ddefnyddir gan Estyn a syniad bras o'u hystyr. Mae'r tabl ar gyfer rhoi arweiniad yn unig.

Bron pob un	gydag ychydig iawn o eithriadau
Y rhan fwyaf	90% neu fwy
Llawer	70% neu fwy
Mwyafrif	dros 60%
Hanner/tua hanner	yn agos 50%
Lleiafrif	islaw 40%
Rhai	islaw 20%
Ychydig iawn	llai na 10%

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol**.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	Tudalen
Cyd-destun	1
Crynodeb	3
Argymhellion	7
Safonau	8
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	8
Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant	12
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	12
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	15
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	18
Arweinyddiaeth a rheolaeth	20
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	20
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	22
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	24
Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu	26
Cyfnod sylfaen	26
Cymraeg iaith cyntaf	30
Dylunio a thechnoleg	31
Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	33
Celf a dylunio	35
Addysg grefyddol	36
Ymateb yr ysgol i'r arolygiad	37
Atodiadau	38
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	38
2 Data a dangosyddion ysgol	39
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	40
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad	42
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	43

Cyd-destun

Natur y darparwr

1. Lleolir Ysgol Gynradd Bontnewydd ym mhentref gwledig Bontnewydd, sydd rhyw ddwy filltir i'r gorllewin o Gaernarfon yn sir Gwynedd. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref a'r cylch gwledig cyfagos, gan gynnwys pentrefi Caeathro a Llanfaglan. Daw tua 20% o'r disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch. Mae'r ysgol, sydd o dan reolaeth Awdurdod Unedig (AU) Gwynedd, yn ysgol gynradd, naturiol ddwyieithog sy'n derbyn plant a disgyblion 3 i 11 oed. Ar hyn o bryd, mae ynddi 163 disgybl llawn amser, o oed derbyn i B6, a 15 plentyn rhan amser oed meithrin. Derbynnir plant i'r ysgol yn rhan amser, sef dwy awr y dydd, yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Ers yr arolygiad diwethaf a gynhaliwyd yn nhymor yr Hydref 2003, mae nifer y disgyblion wedi gostwng o 20 a nifer y plant meithrin wedi gostwng o bump. Mae wyth dosbarth yn yr ysgol, gan gynnwys y dosbarth meithrin. Yn ogystal â'r pennaeth, mae gan yr ysgol saith athro a thri chymhorthydd llawn amser, ynghyd â phum athro, saith cymhorthydd a thri swyddog clerigol rhan amser.
2. Yn ôl yr ysgol, nid yw'r ardal o dan anfantais economaidd. Mae 6% o'r disgyblion â hawl i dderbyn prydau ysgol yn rhad ac am ddim. Mae'r ganran hon yn uwch na chanran y disgyblion oedd â hawl i bryd am ddim yn ystod yr arolygiad diwethaf (2.5%) ond yn llai na'r ganran sirol a Chymru gyfan. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o'r ystod lawn o allu.
3. Daw tua 79% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg yn iaith gyntaf (20% yn is nag yn ystod yr arolygiad diwethaf), gyda 21% yn dod o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith y teulu. Ym marn yr ysgol, mae 93% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg naill ai yn iaith gyntaf neu i safon gyfatebol. Addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ac un o nodau'r ysgol yw sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn ddwyieithog cyn mynd i'r ysgol uwchradd.
4. Mae 97% o'r disgyblion yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn a'r gweddill i grwpiau ethnig gwahanol. Nid yw AU yn 'gofalu am' yr un plentyn. Nid oes unrhyw ddisgybl yn derbyn gwersi mewn Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae gan ddau ddisgybl ddatganiad anghenion addysgol arbennig (AAA) ac mae 19 disgybl arall wedi eu hadnabod fel rhai sydd ag AAA. Mae'r ganran hon (tua 12%) yn is na'r ganran genedlaethol a lleol. Mae canran y disgyblion y nodwyd bod angen cymorth ychwanegol arnynt yn uwch na'r ganran o ddisgyblion ag AAA yn ystod yr arolygiad diwethaf
5. Penodwyd y pennaeth, a oedd cyn hynny yn ddirprwy bennaeth yr ysgol, i'w swydd yn Medi 2009. Dechreuodd y dirprwy bennaeth, sy'n newydd i'r ysgol, ar ei swydd yr un pryd. Mae'r ysgol yn derbyn arolygiad safonol y tro hwn.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

6. Mae'r blaenoriaethau isod ar gyfer 2009-2010 i'w gweld yng nghynllun datblygu'r ysgol (CDY):
- datblygu agweddau o bedagogiaeth;
 - diweddarau agweddau ar asesu ffurfiannol a chrynodol;
 - datblygu prosesau ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus;
 - datblygu agweddau o'r profiadau a'r cyfleusterau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen;
 - adolygu cynlluniau gwaith Saesneg a cherdd yn unol â disgwyliadau Cwricwlwm 2008;
 - miniogi cwricwlwm technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh);
 - datblygu ymhellach agweddau ar gynlluniau'r "Ysgol Iach" ac "Ysgol Werdd", a
 - datblygu rôl ehangach yr ysgol o fewn y gymuned.

Crynodeb

7. Mae hon yn ysgol dda gyda nifer fawr o ragoriaethau sydd yn cael eu hamlygu yn holl waith yr ysgol. Mae'r ysgol wedi ymateb yn rhagorol i argymhellion adroddiad yr arolygiad blaenorol ac wedi cynnal ansawdd safonau cyflawniad y disgyblion.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

	Gradd arolygu
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	1
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	1
3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	1
4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	1
5 Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	1
6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	1
7 Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	1

8. Yr oedd y tîm arolygu yn cytuno â barn yr ysgol yn ei hunan arfarniad mewn pedwar o'r saith cwestiwn allweddol. Dyfarnwyd gradd uwch i gwestiwn allweddol 2, 5 a 6.

9. Roedd safonau cyflawniad yn y gwersi a arsylwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
58%	42%	0%	0%	0%

10. Mae safonau cyflawniad yn y gwersi yn rhagori o bell ar yr ystadegau ar gyfer Cymru gyfan am 2007-2008, fel y cyhoeddwyd hwy yn Adroddiad Blynyddol Prif Arolygwr Ei Mawrhydi (PAEM), sef bod safonau yn radd 1 a 2 mewn 84% o wersi a gradd 1 mewn 12% o wersi.
11. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion, a gwna'r plant gynnydd da tuag at ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen.

Maes profiad	Oed meithrin	Oed derbyn
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles a datblygiad diwylliannol	1	1
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu	1	1
Datblygiad mathemategol	1	1
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	1	1
Datblygiad creadigol	1	1
Datblygiad corfforol	1	1

Graddau a ddyfernir yn y pynciau a arolygwyd

Pwnc/ Maes arolygu		
Cyfnod sylfaen (derbyn a meithrin) Manylion uchod	Gradd 1	
Pwnc	Cyfnod allweddol 1	Cyfnod allweddol 2
Cymraeg iaith gyntaf	1	1
Dylunio a thechnoleg	1	1
Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	2	2
Celf a dylunio	1	1
Addysg grefyddol	2	2

12. Mae canlyniadau'r ysgol mewn asesiadau statudol athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol yn dda. Bron yn ddiethriad maent yn rhagori ar rai Cymru a'r AU. Maent yn amrywio pan gânt eu cymharu naill ai gydag ysgolion tebyg o safbwynt canran y disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim neu mewn cymhariaeth ag asesiadau naw o ysgolion eraill tebyg a osodir yn yr un 'teulu'¹ yn ôl ystadegau Llywodraeth Cynulliad Cymru (LIIC).
13. Yn 2009, yng nghyfnod allweddol 1, roedd yr asesiadau yn well na rhai 2006-2008. Llwyddodd yr holl ddisgyblion i gyrraedd lefel 2 neu well yn y Gymraeg, gwyddoniaeth a mathemateg.
14. Yn 2009, yng nghyfnod allweddol 2, pan gaiff y canlyniadau eu cymharu ag ysgolion yn yr un 'teulu', mae'r canlyniadau yn y 50% isaf heblaw am ganlyniadau'r Gymraeg.
15. Fodd bynnag, yn y cyfnod allweddol hwn, llwyddodd 90% o'r disgyblion i ennill gradd 4 neu well mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth.

¹ Yn 2009, am y tro cyntaf, gosododd LIIC ysgolion mewn grwpiau o ddeg i ffurfio 'teulu' am eu bod yn rhannu rhai o'r un nodweddion.

16. Nid yw'r ystadegau moel am 2009 yn cydnabod canran uchel y disgyblion a gyrhaeddodd lefel 5, sef un lefel yn uwch na'r hyn sy'n cael ei ddisgwyl yn gyffredin ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mewn un neu fwy o bynciau.
17. Mae safonau yn y medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu yn y ddwy iaith yn rhagorol. Mae safonau dwyieithrwydd y disgyblion hefyd yn rhagoriaeth. Mae medrau mathemategol a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion yn dda. Mae safonau addysg bersonol, datrys problemau, sgiliau meddwl a medrau creadigol yn rhagorol. Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion hefyd yn rhagorol. Mae'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol da ond nid ydynt, bob tro yn cymryd rôl ddigon gweithredol wrth wella eu gwaith ysgrifenedig eu hunain.
18. Mae disgyblion sydd ag AAA yn cyflawni'n dda. Mae disgyblion sydd yn 'fwy talentog a dawnus' hefyd yn cyflawni'n dda. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng safonau cyflawniad bechgyn a merched na chwaith safonau cyrhaeddiad yn yr asesiadau statudol.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Graddau ar gyfer addysgu

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
60%	35%	5%	0%	0%

19. Mae'r canrannau hyn yn rhagori o lawer ar y canrannau cyfartalog ar gyfer Cymru gyfan, fel y'u cyhoeddir yn Adroddiad Blynyddol PAEM ar gyfer 2007 – 2008 (Cynradd) lle mae ansawdd yr addysgu'n dda neu well (gradd 1 a 2) mewn 83% o wersi ac yn rhagorol (gradd 1) mewn 16% ohonynt.
20. Mae ansawdd yr addysgu'n dda neu well ym mhob dosbarth. Mae nodweddion rhagorol yr addysgu'n cynnwys holi celfydd, byrlymus a threiddgar yn y cyflwyniadau dosbarth cyfan. Hefyd mae gwaith grŵp yn cynnwys pob disgybl ac yn eu herio. Mae cyflymder a bywiogrwydd i'r gwersi a'r addysgu, gan gynnwys sesiynau cloi byr â ffocws clir iddynt.
21. Mae'r asesu, gan gynnwys ymateb i waith disgyblion a rhannu meini prawf llwyddiant â hwy, yn un o gryfderau amlwg yr ysgol. Eto i ddatblygu'n llawn mae ymateb y disgyblion i'w gwaith ysgrifenedig eu hunain.
22. Darpara'r ysgol yn rhagorol ar gyfer yr ystod o ddisgyblion sydd ynddi. Mae'r cwricwlwm yn cyfarfod â'r holl ofynion statudol ac yn hygyrch i bawb. Mae'r ddarpariaeth bynciol, datblygiad medrau sylfaenol ac allweddol y disgyblion, eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol, gan gynnwys y Cwricwlwm Cymreig, oll ymhlith y rhagoriaethau.

23. Mae ansawdd gofal a chyfarwyddyd yn dda gyda nifer o ragoriaethau. Mae'r drefn yn hybu safonau gwaith uchel. Mae hefyd yn datblygu sgiliau dysgu a chymdeithasol y disgyblion a dulliau byw yn iach. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag AAA yn rhagorol. Mae'r ysgol yn cynnig cyfle cyfartal i bawb. Mae'r cysylltiad clos gydag uned Ysgol Pendalar a leolir ar safle Ysgol Gynradd Bontnewydd yn hybu ymwybyddiaeth y disgyblion o eraill sy'n wahanol iddynt hwy eu hunain.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

24. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth strategol yr ysgol yn rhagorol ac mae wedi sicrhau safonau cyflawniad uchel.
25. Mae'r pennaeth yn arweinydd ac yn rheolwr llwyddiannus. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel o ran safonau ac o ran ymddygiad ac mae hi'n arwain trwy esiampl. Mae'r dirprwy bennaeth hefyd yn arwain yn rhagorol ac yn ddolen gyswllt gynhaliol rhwng yr holl staff. Ysgwydda'r ddwy, ynghyd â'r athrawes sy'n gyfrifol am y Cyfnod Sylfaen eu cyfrifoldebau'n hynod o effeithiol.
26. Gweithia'r cydgysylltwyr pynciau'n effeithiol i gynllunio ac i asesu eu pynciau.
27. Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol. Mae eu gwybodaeth amdani yn dda. Maent yn 'gyfeillion beirniadol' i'r pennaeth a'i chydweithwyr ac yn monitro gwaith yr ysgol yn dda. Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei holl gyfrifoldebau statudol yn dda.
28. Mae trefn hunan arfarnu ar lefel ysgol gyfan a phynciol yn eglur i bawb. Mae nifer fawr o gryfderau yn y broses hunan arfarnu, gan gynnwys arsylwi gwersi a chyd-edrych ar waith disgyblion ac mae'r rhain wedi arwain at welliannau. Mae rhai agweddau, megis graddoli arsylwadau o wersi, eto i'w datblygu'n llawn, .
29. Mae defnydd ac ansawdd staffio'r ysgol yn rhagorol. Cyflogir nifer priodol o athrawon cymwys a phrofiadol ac mae cydbwysedd da o staff profiadol a llai profiadol. Mae tîm o gymorthyddion dosbarth effeithiol ac ymroddedig yn darparu cefnogaeth ragorol.
30. Medda'r ysgol ar ystod eang iawn o adnoddau amrywiol sydd o ansawdd rhagorol. Mae'r adeilad hefyd mewn cyflwr rhagorol.
31. Caiff adnoddau dynol a materol a'r adeiladau eu defnyddio'n effeithiol ac effeithlon. Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da iawn am arian.

Argymhellion

I gynnal safonau uchel, mae angen i'r ysgol:

- A1 Barhau i gynnal y safonau pynciol rhagorol, a chynnal a chodi'r safonau pynciol da;
- A2 Sicrhau mwy o gyfraniad gan y disgyblion wrth iddynt ymateb i'w gwaith ysgrifenedig, a
- A3 Pharhau i finio'i'r broses o arfarnu safonau pynciol.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, yn cael ei ddsbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

32. Roedd safonau cyflawniad yn y gwersi a arsylwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
58%	42%	0%	0%	0%

33. Mae safonau cyflawniad yn y gwersi yn rhagori o bell ar ystadegau ar gyfer Cymru gyfan am 2007-2008, fel y cyhoeddwyd hwy yn Adroddiad Blynyddol Prif Arolygwr Ei Mawrhydi (PAEM), sef bod safonau yn radd 1 a 2 mewn 84% o wersi a gradd 1 mewn 12% o wersi.

34. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion, a gwna'r plant gynnydd da tuag at ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen.

Maes profiad	Oed meithrin	Oed derbyn
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles a datblygiad diwylliannol	1	1
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu	1	1
Datblygiad mathemategol	1	1
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	1	1
Datblygiad creadigol	1	1
Datblygiad corfforol	1	1

Graddau a ddyfernir yn y pynciau a arolygwyd

Pwnc/ Maes arolygu		
Cyfnod sylfaen (derbyn a meithrin) Manylion uchod	Gradd 1	
Pwnc	Cyfnod allweddol 1	Cyfnod allweddol 2
Cymraeg iaith gyntaf	1	1
Dylunio a thechnoleg	1	1
Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	2	2
Celf a dylunio	1	1
Addysg grefyddol	2	2

35. Mae canlyniadau'r ysgol mewn asesiadau statudol athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol yn dda. Bron yn ddieithriad maent yn rhagori ar rai Cymru a'r AU. Maent yn amrywio pan gânt eu cymharu naill ai gydag ysgolion tebyg o safbwynt canran y disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim neu mewn cymhariaeth ag asesiadau naw o ysgolion eraill tebyg a osodir yn yr un 'teulu' yn ôl ystadegau LICC.
36. Yn 2009, yng nghyfnod allweddol 1, roedd yr asesiadau yn well na'r rhai dros y cyfnod 2007-2008. Llwyddodd yr holl ddisgyblion i gyrraedd lefel 2 neu well yn y Gymraeg, gwyddoniaeth a mathemateg a llwyddodd yr holl ddisgyblion hefyd i gyrraedd y DPC (dangosydd pynciau craidd) ar gyfer cyfnod allweddol 1 - sef yn cyrraedd lefel 2 neu well mewn cyfuniad o naill ai Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.
37. Roedd y canlyniadau bron cystal â hyn yn 2006 hefyd, ond yn 2007 roedd natur y fintai yn golygu bod yr ysgol yn cael ei gosod yn 25% isaf ysgolion tebyg o safbwynt canran y disgyblion a oedd â hawl i ginio am ddim. Yn 2008 roedd y canlyniadau yn y pynciau unigol yn gosod yr ysgol ymhlith 50% isaf ysgolion tebyg.
38. Yn 2009, yng nghyfnod allweddol 2, pan gaiff y canlyniadau eu cymharu ag ysgolion yn yr un 'teulu', mae'r canlyniadau yn y 50% isaf, heblaw am ganlyniadau'r Gymraeg.
39. Fodd bynnag, yn y cyfnod allweddol hwn, llwyddodd 90% o'r disgyblion i ennill gradd 4 neu well mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef y DPC ar gyfer cyfnod allweddol 2 .
40. Fodd bynnag, o safbwynt canran y disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim, roedd canlyniadau'r DPC yn 2009 yn gosod yr ysgol ymhlith y 50% uchaf o ysgolion tebyg. Yn 2007, yr oedd canlyniadau cyfatebol yr ysgol yn ei gosod yn y 25% uchaf. Yn 2008, yr oedd yr ysgol yn y 50% isaf o ysgolion tebyg.
41. Nid yw'r ystadegau moel am 2009 yn cydnabod canran uchel y disgyblion a gyrhaeddodd lefel 5 mewn un neu fwy o bynciau.
42. Rhwng 2007 a 2009, mae'r ysgol wedi bod yn gyson ymhlith 50% uchaf ysgolion tebyg ar gyfer y Saesneg. Mae canlyniadau mathemateg wedi amrywio rhwng y 50% uchaf a'r 50% isaf o ysgolion tebyg. Mae canlyniadau gwyddoniaeth yn eithaf cyffelyb ac mewn dwy o'r tair blynedd, yr oeddynt yn gosod yr ysgol ymhlith y 50% isaf o ysgolion tebyg. Yn 2008 a 2009, yr oedd canlyniadau yn y Gymraeg yn gosod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg. Yn 2007, yr oeddynt yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf.
43. Wrth ddadansoddi'r canlyniadau gwelir amrywiaethau o flwyddyn i flwyddyn, sy'n adlewyrchu natur y fintai a nifer y disgyblion yn y flwyddyn.
44. Mae'r holl ddisgyblion yn cyflawni'r targedau a osodir ar eu cyfer. Eithriad o'r mwyaf yw'r disgybl yng nghyfnod allweddol 2 nad yw sgôr ei asesiadau ddiwedd cyfnod allweddol yn dangos cynnydd o ddwy lefel. Yn ogystal, mae tua chwarter y disgyblion, yn ddibynnol ar y flwyddyn, yn gwneud cynnydd o dair lefel a rhwng 40% a 50 % yn cyrraedd lefel 5.

45. Mae disgyblion ag AAA yn cyflawni'n dda. Mae disgyblion 'mwy talentog a dawnus' hefyd yn cyflawni'n dda. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng safonau cyflawniad bechgyn a merched, na chwaith safonau cyrhaeddiad yn yr asesiadau statudol.
46. Mae safonau cyflawniad yn y sgiliau gwranddo, siarad, darllen ac ysgrifennu yn y ddwy iaith yn rhagorol drwy'r ysgol, er nad yw'r Saesneg yn cael ei asesu'n swyddogol yng nghyfnod allweddol 1. Gwrendy'r disgyblion yn astud iawn ar eu hathrawon a'u cyfoedion; ymatebant yn estynedig a rhwydd ar lafar gan ddisgrifio, mynegi barn a dangos empathi'n rhwydd. Mae eu defnydd o dermau pynciol - ar adegau yn y ddwy iaith, ond rhan amlaf yn y Gymraeg - hefyd yn rhatoriaeth erbyn B6.
47. Maent yn darllen yn llithrig iawn gan ddangos dealltwriaeth ragorol o'r cynnwys. Mae bron bob disgybl hefyd yn ysgrifennu'n estynedig yn y ddwy iaith gydag elfen uchel o gywirdeb, ac ar adegau, ddychymyg a dealltwriaeth dda iawn o lenyddiaeth.
48. Mae safonau dwyieithrwydd y disgyblion yn rhagorol. Maent yn trawsieithu'n llyfn o un iaith i'r llall yn ysgrifenedig ac ar lafar.
49. Mae sgiliau mathemategol y disgyblion yn dda. Gallant rifo, mesur a gweithio ar ddata yn dda. Mae sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion yn dda.
50. Mae safonau addysg bersonol, datrys problemau, sgiliau meddwl a sgiliau creadigol yn rhagorol. Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion hefyd yn rhagorol.
51. Mae'r holl ddisgyblion yn llwyddo'n dda, beth bynnag fo'u cefndir cymdeithasol, ethnig neu ieithyddol. Un o'r nodweddion trawiadol yw safonau disgyblion B6 yn y Gymraeg sy'n dod o gartrefi lle na siaredir y Gymraeg gartref. Yr un modd cyflawna disgyblion sydd yn siarad y Gymraeg gartref yn dda yn eu Saesneg.
52. Mae'r holl ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd rhagorol yn holl agweddau eu meysydd profiad. Yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 mae'r oll o'r disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol yn y Gymraeg, celf a dylunio a dylunio a thechnoleg. Maent hefyd yn gwneud cynnydd da mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac addysg grefyddol. Mae'r holl ddisgyblion yn sicrhau gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau newydd i safon uchel drwy'r ysgol.
53. Mae gan bron bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o'r hyn y maent yn ei wneud. Mae ganddynt syniad rhagorol pa mor llwyddiannus yw eu cynnydd ac yn aml maent yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella, ond nid ydynt, bob tro yn cymryd rôl ddigon gweithredol wrth wella eu gwaith ysgrifenedig.
54. Mae'r disgyblion oll, beth bynnag eu gallu, yn gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd eu potensial a symud ymlaen o'r Cyfnod Sylfaen i gyfnod allweddol 1, o gyfnod allweddol 1 i gyfnod allweddol 2 a hefyd o gyfnod allweddol 2 i'r sector uwchradd.

55. Mae agweddau bron bob disgybl at ddysgu'n rhagorol; mae'r disgyblion, oll bron, yn mwynhau eu gweithgareddau ac yn elwa ohonynt. Maent yn dangos chwilfrydedd a diddordeb mawr yn eu gwaith. Maent yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau yn rhagorol.
56. Mae ymagwedd ac ymddygiad y disgyblion yn rhagorol. Maent yn gwrtais, yn awyddus iawn i ddysgu ac yn arbennig o groesawgar tuag at oedolion, yn cynnwys ymwelwyr.
57. Mae presenoldeb yn dda. Yn anaml iawn y disgynna'n is na 95%. Mae'n rheolaidd uwch na 96%. Daw'r disgyblion yn brydlon i'r ysgol.
58. Maent yn dod yn ddysgwyr annibynnol yn fuan yn eu gyrfa ysgol ac mae hyfedredd yn y sgiliau allweddol a'r sgiliau allweddol ehangach, megis datrys problemau, cydweithio a gwella eu dysgu eu hunain yn rhoi'r sgiliau angenrheidiol iddynt i gynnal dysgu gydol oes yn dda.
59. Mae disgyblion o bob oed yn cydweithio a chyd-chwarae'n dda. Mae'r disgyblion yn mwynhau derbyn cyfrifoldebau ym mywyd eu dosbarth, ac yn eu gweithredu'n gydwybodol. Mae aelodau'r Cyngor Ysgol yn dangos gofal a chonsyrn am eraill drwy ymgyrchoedd codi arian at achosion da o'u dewis.
60. Mae cyfle cyfartal ym mhob gweithgaredd. Caiff pob disgybl gyfle i gyfranogi'n llawn o arlwy gyfoethog, gyda chymorth ychwanegol lle bo angen. Mae partneriaeth ragorol ag ysgol gyfagos i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol dwys.
61. Mae'r ysgol yn rhan bwysig dros ben o'i chymuned leol, gyda'r naill a'r llall yn elwa'n sylweddol o'r bartneriaeth.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

62. Mae'r radd a ddyfarnodd y tîm arolygu yn wahanol i'r un a roddodd yr ysgol iddi hi ei hun yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Ystyria'r tîm arolygu bod digon o nodweddion rhagorol i ddyfarnu gradd uwch. Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi'r graddau ar gyfer addysgu trwy'r ysgol.

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd
60 %	35%	5%	0%	0%

63. Mae'r canrannau hyn yn rhagori o lawer ar y canrannau cyfartalog ar gyfer Cymru gyfan, fel y'u cyhoeddir yn Adroddiad Blynyddol PAEM ar gyfer 2007 – 2008 (Cynradd) lle mae ansawdd yr addysgu'n dda neu well (gradd 1 a 2) mewn 83% o wersi ac yn rhagorol (gradd 1) mewn 16% ohonynt.
64. Mae'r addysgu'n diwallu anghenion yr holl ddisgyblion a gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Addysg Grefyddol Gytunedig a'r Cwricwlwm Cenedlaethol (CC).
65. Mae ansawdd yr addysgu'n dda neu well ym mhob dosbarth. Mae gan yr athrawon adnabyddiaeth dda o ofynion y pynciau a'r meysydd, ac mae eu disgwyliadau'n uchel o ran canolbwyntio a safonau ymddygiad. Mae'r holl athrawon a chymorthyddion dosbarth wedi sefydlu perthynas dda gyda'r disgyblion yn seiliedig ar barch. Gwneir defnydd cyson a phwrpasol o annog a chanmol disgyblion.
66. Mae nodweddion rhagorol yr addysgu'n cynnwys:
- holi celfydd, byrlymus a threiddgar yn y cyflwyniadau dosbarth cyfan a'r gwaith grŵp, sy'n cynnwys pob disgybl ac yn eu herio;
 - cyflymder a bywiogrwydd i'r gwersi a'r addysgu, gan gynnwys sesiynau cloi byr â ffocws clir iddynt;
 - gwybodaeth drylwyr athrawon o'r meysydd a'r pynciau a addysgir ganddynt a'r sylw a roddir, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen ac ym mhen ucha'r ysgol, i flaengareddau newydd megis datrys problemau a medrau meddwl;
 - cynllunio tasgau ymarferol ac estynedig sy'n symbylu diddordeb a brwdfrydedd disgyblion i archwilio eu syniadau;
 - model iaith ragorol athrawon sy'n hybu llafaredd graenus y disgyblion a'u geirfa bynciol effeithiol;
 - defnydd rhagorol athrawon o'r bwrdd gwyn rhyngweithiol i gyfoethogi'r addysgu ar draws y cwricwlwm.
67. Mae nodweddion da'r addysgu yn cynnwys:
- cyflwyniadau trylwyr ac esboniadau clir sy'n canolbwyntio ar amcanion y wers;

- defnydd effeithiol o ystod o adnoddau addysgu, gan gynnwys bwrdd gwyn rhyngweithiol;
 - rhannu amcanion y wers gyda'r disgyblion;
 - disgwyliadau uchel i symud y dysgu ymlaen;
 - cynhaliaeth a chefnogaeth dda i ddisgyblion pan wrth eu gwaith.
68. Yn y gwersi prin lle mae diffygion yn yr addysgu, mae cyflwyniadau dechreuol yr athrawon yn rhy hir a'r cwestiynu'n rhy gaeëdig.
69. Mae ffocws clir ar amcanion dysgu sy'n cael eu rhannu gyda'r disgyblion a'u gwirio ar ddiwedd gwersi, pan gadarnheir y meini prawf llwyddiant ac amcanion y wers. Atgyfnerthir gwybodaeth flaenorol yn effeithiol a rhoddir cefnogaeth dda i unigolion a grwpiau ar gyfer cyflawni eu tasgau. Mae trefniadaeth ddosbarth gadarn a chyflymdra priodol i'r gwersi.
70. Telir sylw da i anghenion pob disgybl ac ni cham-wahaniaethir ar sail rhyw, hil na gallu.
71. Mae ansawdd asesu, cofnodi ac adrodd i rieni'n dda gyda nodweddion rhagorol. Mae'r drefn yn hylaw, yn fanwl ac yn effeithiol, ac yn cyfuno asesu ffurfiannol a chrynodol. Asesir disgyblion yn y pynciau craidd yn dymhorol a defnyddir yr asesiadau i lunio sylwadau ffurfiannol ar gyfer gwelliant. Mae'r athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn a defnyddiant ystod o ddulliau addas wrth ddod i farn am safonau.
72. Mae ansawdd yr asesu ar gyfer plant y Cyfnod Sylfaen yn rhagorol. Defnyddir y wybodaeth fanwl - a gesglir drwy asesu sylfaen ac arsylwi a chofnodi rheolaidd - yn effeithiol iawn wrth gynllunio gwaith ar gyfer y dyfodol a chadw llygaid ar les y plant.
73. Drwy'r ysgol, cynhelir asesiadau'n rheolaidd. Mae'r rhain yn gywir a chyson ac mae'r athrawon yn eu defnyddio i fonitro cynnydd disgyblion unigol ac i sicrhau bod darpariaeth addas ar eu cyfer.
74. Gosodir targedau unigol i ddisgyblion mewn iaith a rhifedd, ac fe'u cofnodir yn eu llyfrau gwaith. Bydd yr athro a'r disgybl yn adolygu'r targedau yn gyson, a byddant yn cael eu rhannu gyda'u rhieni'n dymhorol.
75. Yn ogystal â chynllun cynhwysfawr i dracio datblygiad disgyblion unigol, ceir dadansoddiad trylwyr o berfformiad disgyblion cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 yn flynyddol yn y Cynllun Asesiad Athro. Rhoddir sylw i berfformiad gwahaniaethol bechgyn a merched, perfformiad rhwng gwahanol flynyddoedd a pherfformiad yr ysgol o'i gymharu ag ysgolion tebyg yn ddalgylchol, sirol a chenedlaethol.
76. Mae gan yr ysgol bortffolios manwl o waith enghreifftiol yn y pynciau craidd, a samplau o waith a fernir o safon dda neu'n well yn y pynciau sylfaen.

77. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gydag ysgolion eraill y dalgylch i safoni gwaith disgyblion yn yr holl bynciau craidd, ac mae'n flaenllaw mewn cymedroli asesiadau'r athrawon.
78. Mae adroddiadau i rieni yn cydymffurfio â gofynion statudol ac maent o ansawdd da. Trefnir cyfleoedd deirgwaith y flwyddyn i rieni fynychu cyfarfodydd i drafod gwaith eu plant, ac mae rhieni'n canmol eu hansawdd. Fe rydd polisi drws agored yn ysgol gyfle rheolaidd i rieni drafod unrhyw agwedd o waith eu plant yn anffurfiol pe bai'r angen. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyn.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

79. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
80. Mae'r profiadau dysgu yn diwallu dyheadau ac anghenion pob dysgwr trwy ddarparu cwricwlwm sy'n eang, cytbwys a gwahaniaethol. Sicrheir bod mynediad llawn i bob disgybl i'r holl brofiadau dysgu a ddarperir, ac mae'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion statudol.
81. Darpara'r ysgol amrediad cyfoethog ac ysgogol o brofiadau dysgu ar gyfer plant y Cyfnod Sylfaen. Mae'r gweithgareddau'n gyffrous, wedi eu cynllunio'n effeithiol ac yn arwain yn naturiol ac yn effeithiol at raglenni astudio'r CC yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2.
82. Cynllunia'r athrawon yn ofalus ar gyfer cyflwyno'r medrau sylfaenol a rhoddir sylw trwyadl iawn i ddatblygu'r sgiliau allweddol. Ar draws yr oedrannau, mae cyfleoedd niferus ym mywyd a gwaith yr ysgol, ac mewn ystod eang o bynciau ar gyfer datblygu eu sgiliau cyfathrebu Cymraeg yn gywir ac yn estynedig. Mae hyn yn nodwedd ragorol yn y ddarpariaeth. Llwyddodd yr ysgol i dderbyn achrediad yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol am y trydydd tro yn 2008 am ddatblygu sgiliau sylfaenol iaith.
83. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau dwyieithog disgyblion yn rhagorol. Mae cyflwyno agweddau o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn hyrwyddo eu datblygiad yn effeithiol. Gweithreda'r ysgol bolisi iaith y sir yn llwyddiannus ac effeithiol dros ben.
84. Mae'r ysgol yn cynnig ystod ragorol o brofiadau allgyrsiol sy'n aml yn arwain at weithgaredd pellach yn y dosbarth. Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn nodwedd gref yn holl fywyd a gwaith yr ysgol, ac mae ystod eang o gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth disgyblion o'u hetifeddiaeth a'u diwylliant o fewn yr ardal leol a thu hwnt, e.e. gwaith maes, dilyn yr Afon Gwyrfaei ac ymweld â Dinas Dinlle, ymweliadau ag Oriel Môn a Melin Llynnon, Yr Ysgwrn yn Nhrawsfynydd, Sain Ffagan, Stadiwm y Mileniwm a'r Cynulliad. Mae'r ymweliadau hyn yn gyfrwng i gyfoethogi cwricwlwm yr ysgol ac i godi ymwybyddiaeth disgyblion o ddiwylliant eu gwlad.
85. Mae traddodiad hir o gystadlu ac o lwyddiant yng ngweithgareddau amrywiol yr Urdd a chystadlaethau eraill celf, cerddoriaeth a chwaraeon. Mae'r agweddau hyn o waith yr ysgol yn amlwg ac o'r ansawdd uchaf.
86. Mae partneriaeth ragorol â rhieni, y gymuned, ysgolion a sefydliadau eraill. Mae rhieni'n cefnogi amcanion a gwaith yr ysgol yn gryf. Derbyniant wybodaeth fanwl drwy gyfrwng llawlyfr lliwgar, llythyrau rheolaidd ac adroddiadau unigol manwl diwedd blwyddyn. Mae rhieni'n selog eu presenoldeb mewn cyfarfodydd

cwricwlaidd a nosweithiau agored. Cynorthwyant mewn ffyrdd ymarferol, megis helpu gyda chwaraeon a phrosiect garddio. Codant arian sylweddol drwy'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, a ddefnyddir yn effeithiol gan yr ysgol i gyfoethogi ei darpariaeth.

87. Mae cysylltiadau helaeth iawn â'r gymuned leol. Daw ymwelwyr rheolaidd o'r gymuned i rannu eu profiad a'u diddordebau. Mae disgyblion o'r ysgol yn cymryd rhan amlwg mewn gweithgareddau pentref ac yn ymweld â chartref henoed lleol i ganu carolau adeg y Nadolig. Mae clwb pobl hŷn y pentref yn cyfarfod yn yr ysgol ers i'w man cyfarfod arferol gau.
88. Mae partneriaeth ragorol â chlybiau a thimau chwaraeon lleol. Mae timau pêl droed o'r pentref yn defnyddio cyfleusterau'r ysgol i ymarfer. Un o amcanion cyfredol yr ysgol yw cynyddu ei hymwneud cymunedol.
89. Trosglwydda'r disgyblion yn esmwyth i'r ysgol o'r cylch meithrin sy'n cwrdd mewn canolfan gyfagos. Cydweithir ag ysgolion cynradd y dalgylch mewn sesiynau hyfforddi a chymedroli gwaith, cyfarfodydd penaethiaid ac ymweliadau all-gwricwlaidd. Mae partneriaeth ragorol ag ysgol gyfagos i blant ag anghenion ychwanegol dwys, sy'n arwain at gyfleoedd integreiddio gwerthfawr.
90. Mae cysylltiadau pontio priodol, yn gymdeithasol ac yn academaidd, â'r ysgolion uwchradd y trosglwydda disgyblion iddynt ar ddiwedd B6. Mynychir cyfarfodydd pontio yn dymhorol, a chynhelir hyfforddiant mewn swydd cynradd/uwchradd yn flynyddol. Ceir ymweliadau bugeiliol gan staff uwchradd. Bydd ymweliad bugeiliol athro B6 Ysgol Bontnewydd â'r uwchradd yn digwydd yn ystod mis Hydref lle mae modd ymdrin â materion gofal a lles, a thracio cynnydd disgyblion yn dilyn y trosglwyddiad. Mae cysylltiadau arbennig o gryf yn bodoli â rhai o adrannau'r ysgol uwchradd agosaf.
91. Mae'r ysgol yn manteisio'n effeithiol ar wasanaethau arbenigol yr AU ac mae'n cydweithio agos â'r asiantaethau eraill sy'n hyrwyddo iechyd a lles, megis yr heddlu, y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaeth tân.
92. Daw myfyrwyr o ysgolion, colegau a phrifysgol leol yn rheolaidd am gyfnodau buddiol o brofiad gwaith.
93. Mae'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gynyddol o fyd gwaith a busnes. Cyflwynwyd cynllun mentergarwch ac entrepreneuriaeth er mwyn mireinio cyfraniad yr agweddau hyn at feithrin sgiliau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif. Eisoes mae'r ddarpariaeth yn dda. Bu un o gyflwynwyr y rhaglen deledu 'Byw yn yr Ardd' yn cyfarfod â'r Cyngor Ysgol i drafod agweddau ar gynllunio gardd yr ysgol.
94. Hyrwyddodd cysylltiadau â dwy ganolfan arddio ddealltwriaeth y disgyblion o gynaliadwyedd yn ogystal ag ochr fasnachol tyfu a gwerthu planhigion. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu sgiliau rhif wrth chwarae rôl mewn "swyddfa bost".
95. Mae cyfle cyfartal ym mhob gweithgaredd. Mae bechgyn a merched yn chwarae'r un gemau.

96. Mae'r ysgol yn gweithio tuag at ennill achrediadau'r cynllun Ysgol Werdd. Yn rhagorol, enillodd wobwr genedlaethol Dŵr Cymru i'r ysgol a arbedodd fwyaf o ddŵr drwy Gymru gyfan. Mae mainc ar dir ysgol yn tystio i'r ysgol ennill gwobr sirol am ei hymdrechion yn y maes ailgylchu.
97. Mae disgyblion yn ymwybodol iawn o ddinasyddiaeth fyd-eang ac amgylchiadau byw mewn gwahanol rannau o'r byd. Dysgant yn fanwl am wahanol grefyddau'r byd. Ymdrechant yn rhagorol i godi arian er mwyn noddi disgybl mewn ysgol yn Uganda a phrynu geifr ar gyfer trigolion mewn ardaloedd eraill tlawd.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

98. Mae'r radd a ddyfarnodd y tîm arolygu yr un fath â'r radd a roddodd yr ysgol iddi hi ei hun yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
99. Mae'r disgyblion yn hapus iawn yn yr ysgol ac mae perthynas ragorol rhyngddynt a'r staff dysgu a'r staff ategol. Mae ethos gofalgwr a chynhwysol yn yr ysgol ac mae'r disgyblion yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan yr oedolion oll.
100. Mae'r ysgol yn cydweithio mewn partneriaeth dda gyda'r rhieni ac yn ystyried eu barn. Mae gan y rhieni hyder yn y gofal a'r cyfarwyddyd a gaiff eu plant ac yn y ffordd y mae'r ysgol yn ymateb i unrhyw faterion a godir ganddynt.
101. Mae trefniadau hynod o effeithiol ar gyfer galluogi'r plant ieuengaf i ymgartrefu'n rhwydd yn yr ysgol.
102. Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth a chyfarwyddyd personol o ansawdd ragorol i ddisgyblion. Mae'r staff yn adnabod disgyblion yn dda iawn ac yn ymwybodol iawn o'u hanghenion personol ac addysgol. Mae'r rhaglen addysg personol a chymdeithasol (ABCh) yn rhoi sylw rhagorol i anghenion disgyblion.
103. Caiff pob disgybl gyfle i leisio'i farn ac i fynegi pryderon trwy'r cynghorau dosbarth a thrwy ddefnyddio'r "blychau teimladau" sydd mewn ambell ddsbarth. Mae aelodau'r Cyngor Ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cynnig ffyrdd da o ddatblygu'r ysgol er lles y disgyblion.
104. Cydymffurfia'r ysgol â'r gofynion cofrestru presenoldeb gan wahaniaethu'n gywir rhwng gwahanol fathau o absenoldeb.
105. Caiff ymddygiad rhagorol ei hyrwyddo gan ddisgwyliadau cyson o ddsbarth i ddsbarth, a chan awyrgylch deuluol a chyfeillgar yr ysgol. Rhoddir bri ar lwyddiannau disgyblion, a'u dathlu mewn gwasanaethau ysgol gyfan.
106. Mae'r ysgol yn hybu iechyd a ffitrwydd disgyblion yn rhagorol. Cwblhawyd Cam 1 o'r Cynllun Ysgolion Iach. Anogir bwyta'n iach. Atgyfnerthir y ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo ffitrwydd gan glwb rhedeg 'Dal i Fynd' a darpariaeth offer chwarae buarth.
107. Mae mesurau da i sicrhau iechyd a diogelwch. Caiff offer trydanol ei archwilio'n rheolaidd ac mae'r gofalwr yn archwilio tir yr ysgol yn foreol. Cynhelir ymarferiadau tân tymhorol gan ymateb i unrhyw wersi a ddaw i'r amlwg.
108. Ers yr arolygiad diwethaf cafodd cerbydau a cherddwyr eu gwahanu a gosodwyd croesfan sebra ger mynedfa'r ysgol. Mae croesfan gyda goleuadau dan oruchwyliaeth oedolyn i ddisgyblion sy'n gorfod croesi priffordd yr A487.

109. Rhoddir sylw da i agweddau diogelu plant. Y pennaeth yw'r person a enwir ar gyfer diogelu plant. Mae hefyd aelod o'r llywodraethwyr yn ymgymryd â chyfrifoldeb am y maes. Mae holl staff yr ysgol yn wyladwrus a thrafodir gofynion a gweithdrefnau diogelu plant yn drylwyr mewn cyfarfodydd staff.
110. Mae trefniadau'r ysgol i adnabod disgyblion sydd ag AAA yn dda ac mae cynlluniau bwriadus ar eu cyfer. O ganlyniad mae'r ddarpariaeth yn dda.
111. Mae gan yr ysgol strategaethau effeithiol sydd yn sicrhau cefnogaeth briodol ar gyfer disgyblion sydd â phroblemau ymddygiad. Mae gan yr ysgol fesurau i ymateb i unrhyw ymddygiad gormesol, ac fe bwysleisir parch at eraill yn gyson trwy ddulliau megis y gornel cwrtseisi.
112. Mae trefniadau rhagorol i helpu newydd-ddyfodiaid groesi'r bont ieithyddol ac mae disgyblion a gyrhaeddodd heb ddealltwriaeth o'r Gymraeg yn integreiddio'n gyflym a llwyddiannus i fywyd cyflawn, dwyieithog yr ysgol.
113. Canmola'r rhieni'r modd dirodres y mae'r ysgol yn hybu cydraddoldeb. Mae cysylltiadau rhagorol ag ysgol gyfagos ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol. Mae uned loeren o'r ysgol honno wedi ei lleoli yma. Caiff disgyblion yr uned bob cyfle ac anogaeth i ymuno â bywyd a gwaith Ysgol Bontnewydd, hyd y medrant.
114. Mae'r disgyblion yn dangos empathi rhagorol at eraill drwy gasglu arian yn rheolaidd at achosion da a thrwy noddï prosiectau i helpu trigolion sy'n byw yn y trydydd byd.
115. Yn dilyn ymgynghoriad â disgyblion, rhieni, llywodraethwyr a'r Cyngor Ysgol, mabwysiadwyd cynllun hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Gweithredir y cynllun yn gyson o ddsbarth i ddsbarth a chaiff y disgwyliadau uchel effaith gadarnhaol iawn.
116. Mae rhieni a disgyblion yn tystio nad oes bwlio yn yr ysgol hon. Teimlai rhai disgyblion, fodd bynnag, fod carfan o ddisgyblion hŷn yn dominyddu'r iard ar adegau.
117. Mae mynediad mewn cadair olwyn i bob rhan o'r ysgol, ac ystafell bwrpasol gydag adnoddau rhagorol i ategu'r ddarpariaeth prif lif.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

118. Mae'r radd a ddyfarnwyd gan y tîm arolygu ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn yn uwch na'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun yn ei dogfen hunan arfarnu. Dyfarnodd y tîm arolygu radd uwch i adlewyrchu'r ffaith bod arweinyddiaeth a rheolaeth strategol dros amser wedi cynnal neu arwain at safonau cyflawniad uchel iawn ac addysgu gyda llawer o ragoriaethau
119. Mae'r pennaeth yn arweinydd ac yn rheolwraig lwyddiannus iawn. Mae ganddi ddisgwyliadau hynod o uchel ac mae'n arwain trwy esiempl. Mae wedi manteisio ar ei gwybodaeth flaenorol fel dirprwy'r ysgol i adnabod ac i flaenoriaethu'r strategaethau sydd eu hangen i barhau i wella'r ysgol. Mae ganddi weledigaeth eglur iawn o werthoedd, nodau, amcanion a blaenoriaethau'r ysgol ac mae wedi eu cyfleu'n llwyddiannus i'w chydweithwyr, llywodraethwyr a rhieni. Mae ei chyfraniad i fywyd a llwyddiant yr ysgol yn rhagorol.
120. Caiff y pennaeth ei chynorthwyo'n rhagorol gan ddirprwy'r ysgol a'r athrawes sy'n gyfrifol am y Cyfnod Sylfaen. Mae pennaeth y Cyfnod Sylfaen wedi sicrhau safonau uchel iawn yn ei hadran. Mae'r dirprwy, sy'n newydd i'r ysgol, eisoes yn cael effaith bositif ar addysgeg a methodoleg dysgu ac addysgu. Mae'r cydgysylltwyr pwnc hefyd yn cynllunio, paratoi ac asesu eu meysydd yn dda.
121. Mae yma ymdeimlad clir o bwrpas a gaiff ei gynnal yn rhagorol gan werthoedd ac ethos cyfrannol a chydweithio effeithiol.
122. Mae gan yr ysgol nodau a gwerthoedd penodol, sy'n hyrwyddo cydraddoldeb i bawb. Caiff y gwerthoedd hyn eu hadlewyrchu'n eglur ym mywyd beunyddiol yr ysgol, lle caiff plant o bob gallu, oed, rhyw neu gefndir hiliol eu trin yn gyfartal a derbyn yr un cyfleoedd.
123. Gosodir targedau realistig ond uchelgeisiol, yn ôl gofynion y ddeddf, ar gyfer y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn y ddau gyfnod allweddol a hefyd Saesneg yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r athrawon dosbarth yn ymwybodol o'r targedau hyn gan iddynt gynorthwyo i'w llunio ac mae gan y disgyblion eu hunain ran yn y broses o bennu targedau.
124. Mae prif flaenoriaethau CDY yn rhoi sylw da i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys dwyieithrwydd, creu cysylltiadau cymunedol, arfer cynaliadwyedd, annog dull iach o fyw i'r disgyblion a pharhau i baratoi ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r CC newydd a ddechreuodd ym Medi 2008. Gwna'r ysgol ddefnydd da o bartneriaid lleol. Mae cyfrifoldebau wedi eu diffinio'n eglur, felly hefyd feini prawf llwyddiant. Mae'r blaenoriaethau wedi eu prisio'n ofalus. Cafodd y rhai sydd â diddordeb yn yr ysgol gyfle i gyfrannu at y CDY.

125. Mae gan bob aelod o staff swydd ddisgrifiad addas. Mae cynlluniau i gefnogi athrawon sydd wedi cymhwyso'n ddiweddar mewn lle, a gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o reoli perfformiad. Mae staff yn mynychu hyfforddiant perthnasol. Eisoes mae effaith yr hyfforddiant yn cael ei adlewyrchu'n gadarnhaol yn y deunyddiau a'r fethodoleg a ddefnyddir yn y dosbarth. Yn ychwanegol, mae cefnogaeth bersonol a phroffesiynol gref o fewn yr ysgol i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r ysgol wedi paratoi cynlluniau addas i sicrhau bod staff yn derbyn yr amser digyswllt gofynnol ac mae hyn wedi arwain at newid arwyddocaol yn y fethodoleg addysgu a dysgu. Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar safonau pynciol ac ymrwymiad y plant a'r disgyblion i'r gwaith.
126. Mae gweinyddiad dydd i ddydd yr ysgol yn dda a chaiff yr adnoddau eu rheoli'n arbennig o dda.
127. Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol. Mae gan nifer ohonynt arbenigedd defnyddiol mewn meysydd perthnasol a defnyddiant eu sgiliau i gynorthwyo'r ysgol. Mae ganddynt hefyd gysylltiadau agos iawn gyda'r gymuned a'r rhieni. Mae eu gwybodaeth am fywyd yr ysgol yn dda. Maent yn 'ffrindiau beirniadol' i'r pennaeth a'i chydweithwyr ac yn monitro gwaith yr ysgol yn dda.
128. Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei holl gyfrifoldebau statudol yn dda. Mae llawlyfr yr ysgol ac adroddiad blynyddol y llywodraethwyr yn cydymffurfio â'r gofynion cyfredol.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

129. Mae'r radd a ddyfarnwyd gan y tîm arolygu ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn yn uwch na'r radd a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun yn ei dogfen hunan arfarnu. Dyfarnodd y tîm arolygu radd uwch i adlewyrchu'r ffaith bod y broses o hunan arfarnu a'r deilliannau dros amser wedi cynnal neu arwain at safonau cyflawniad uchel iawn, addysgu gyda llawer o ragoriaethau a phrofiadau cwricwlaidd rhagorol.
130. Mae'r graddau a ddyfarnodd y tîm arolygu yn cytuno gyda'r graddau a ddyfarnodd yr ysgol iddi ei hun yn ei dogfen hunan arfarnu mewn pedwar o'r saith cwestiwn allweddol. Yn y tri chwestiwn lle dyfarnwyd gradd wahanol, rhoddodd y tîm radd uwch oherwydd y rhagoriaethau a ddaeth i'r amlwg.
131. Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol o ansawdd da. Mae'n seiliedig ar adnabyddiaeth dda iawn o'r ysgol. Mae'n dilyn saith cwestiwn allweddol Estyn ac mae'n arfarniadol yn hytrach na'n ddisgrifiadol; mae'n rhoi gradd ar gyfer pob cwestiwn ac yn llunio rhestr o flaenoriaethau ar gyfer gweithredu a gaiff eu hadlewyrchu yn y CDY. Nid yw, fodd bynnag, yn crynhoi nac yn gosod yr hyn sydd angen ei wella yn ôl trefn blaenoriaeth na bob amser yn perthnasu'r canfyddiadau i safonau pynciol.
132. Prif gryfder y ddogfen hunan arfarnu yw'r broses gydweithredol a'i cynhyrchodd. Mae'r holl staff ynghlwm wrth y broses arfarnu, felly hefyd y disgyblion, y llywodraethwyr a'r rhieni. Mae'r ysgol yn holi ac yn cymryd sylw da o safbwyntiau'r disgyblion, yn anffurfiol ac yn fwy ffurfiol yn y Cyngor Ysgol. Yn ychwanegol, mae'n ceisio barn rhieni ac mae'r corff llywodraethol yn cymryd rhan weithredol yn yr hunan arfarnu. Gwna'r ysgol ddefnydd da o wasanaeth ymgynghori addysgiadol yr AU i asesu'r ddarpariaeth a hefyd i roi barn ar safonau.
133. Mae prosesau hunan arfarnu'r ysgol yn rhagorol. Mae gan y pennaeth a'r uwch-reolwyr wybodaeth fanwl o safonau pynciol. Mae'r ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddir yn cynnwys data asesu mewnol a statudol yn ogystal ag adnabyddiaeth dda iawn o ddisgyblion unigol. Mae dadansoddiadau o ddata neu waith disgyblion yn y dosbarth wedi caniatáu i'r ysgol dargedu carfanau o ddisgyblion a dyfeisio strategaethau llwyddiannus i godi eu safonau mewn pynciau neu agweddau o bynciau. Yn ogystal, mae arfarniadau rheolaidd yr ysgol wedi cael eu seilio ar arsylwadau ffurfiol o wersi a dadansoddiad manwl o waith disgyblion yn erbyn safonau pynciol.
134. Mae'r ysgol yn defnyddio gwybodaeth fanwl o'r broses hunan arfarnu i gynllunio ar gyfer gwelliant. Mae'r CDY o ansawdd da ac yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a ddynodir yn y ddogfen hunan arfarnu. Mae'n arf rheolaethol effeithiol. Mae'r ysgol hefyd yn gosod targedau a blaenoriaethau meintiol ac ansoddol heriol.
135. Mae'r corff llywodraethol a'r pennaeth yn darparu digon o adnoddau dynol a materol i ddiwallu'r blaenoriaethau a'r amcanion.

136. Mae'r ysgol wedi ymateb yn rhagorol i'r materion allweddol a nodwyd yn adroddiad yr arolygiad blaenorol. Mae'r ysgol wedi cynnal safonau cyflawniad da neu ragorol. Mae targedau yn y CDY yn cynnwys rhai meintiol perthnasol. Mae'r broses o arsylwi gwersi, ynghyd ag ymrwymiad yr ysgol i ddatblygu addysgeg, yn golygu bod addysgu ym mhob pwnc wedi ei arfarnu'n ofalus. Bellach, mae sesiynau dwy awr ar gyfer y plant meithrin yn cyfarfod â'r gofynion. Cydymffurfir yn llawn â'r gofyn statudol i gynnig addoliad ar y cyd dyddiol ac mae'r ysgol wedi sicrhau diogelwch safle'r ysgol.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

137. Mae'r radd a ddyfarnodd y tîm arolygu yn unol â'r un a roddodd yr ysgol iddi hi ei hun yn ei hadroddiad hunan arfarnu.
138. Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i gyflwyno holl amrediad y cwricwlwm ac ar gyfer nifer presennol y disgyblion. Mae cynorthwywyr dosbarth yn cynnig cefnogaeth effeithiol dros ben i'r athrawon.
139. Mae'r athrawon, cynorthwywyr dosbarth, staff arbenigol a staff ategol oll yn gweithio'n rhagorol fel tîm.
140. Mae gan bob aelod o staff swydd-ddisgrifiad cyfredol. Anogir staff i ddiweddarau ac ehangu eu gwybodaeth mewn cyrsiau hyfforddiant mewn swydd a ddewiswyd yn fwriadus. Caiff gwybodaeth am flaengareddau newydd ei rhaeadru mewn cyfarfodydd staff.
141. Caiff staff newydd, a staff a dderbyniodd gyfrifoldebau newydd, eu hanwytho'n drylwyr, gyda chymorth staff ymgynghorol yr AU.
142. Mae gan yr ysgol adnoddau niferus o ansawdd ragorol i gyflwyno pob agwedd o'r cwricwlwm. Mae'r holl adnoddau mewn cyflwr da, yn cyfoethogi'r addysgu ac yn cymell brwdfrydedd y disgyblion.
143. Ym mhob dosbarth mae bwrdd gwyn rhyngweithiol a chornel lyfrau deniadol sy'n hyrwyddo darllen. Defnyddiwyd cyfraniadau blynyddol hael oddi wrth y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon i ychwanegu at y ddarpariaeth. Nid oes yr un pwnc yn brin o adnoddau.
144. Mae adeilad a thir yr ysgol yn cynnig amgylchedd rhagorol sy'n hyrwyddo dysgu. Mae lle digonol i nifer presennol y disgyblion. Caiff adeiladau'r ysgol eu cynnal a'u cadw'n briodol ac nid oes unrhyw ddiffygion mawr.
145. Mae neuadd hardd sydd hefyd yn dyblu fel ffreutur. Ar adegau yng nghyfnod allweddol 2 mae peth sŵn yn cario o'r naill ddsbarth i'r llall.
146. Mae arddangosfeydd chwaethus yn atgoffa disgyblion o reolau a disgwyliadau'r dosbarth, ac yn rhoi bri ar eu gwaith gorau.
147. Tu allan mae cae chwarae a iardiau caled digonol. Mewn cwad caeëdig, crëwyd ardal ddiogel ddeniadol awyr agored i addysgu sgiliau megis rheolau'r ffordd fawr i'r disgyblion ieuengaf.
148. Dechreuwyd datblygu gardd ysgol ar ran o'r cae. Yno hefyd mae peth offer cae chwarae. Mae'r cae'n medru bod yn wlyb ar dywydd garw.

149. Cafodd cerbydau a cherddwyr eu gwahanu'n effeithiol wrth fynedfa'r ysgol fel rhan o gynllun Llwybrau Diogel LICC. Bu gan y disgyblion ran bwysig yn y gwaith o ddylunio'r drefn newydd.
150. Cedwir yr adeilad a'i libart yn arbennig o lân a thaclus.
151. Sefydlwyd trefniadau effeithiol er mwyn sicrhau amser digyswllt i'r athrawon ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.
152. Mae'r tîm rheoli yn adnodd da i'r ysgol ac maent eisoes wedi gwneud cyfraniad i ddatblygiad yr ysgol. Manteisia'r staff addysgu ar gyfleoedd cyson i ddiweddarau eu sgiliau drwy dderbyn amrywiaeth o hyfforddiant sy'n cyd-fynd yn dda â'u hanghenion datblygiad proffesiynol unigol ac â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer datblygiad. Mae'r cyfleoedd cyfatebol ar gyfer y cymorthyddion wedi gwella.
153. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn cydweithio'n agos wrth reoli cyllid yr ysgol. Maent yn trafod yn fanwl nifer o opsiynau wrth bennu blaenoriaethau cyllidol ar gyfer y CDY.
154. Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da iawn am arian.

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

Y cyfnod sylfaen ar gyfer plant dan 5 oed

Y Cyfnod Sylfaen

155. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion, a gwna'r plant gynnydd da tuag at ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen.

Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac aml ddiwylliannol

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion da a rhagorol

Meithrin

156. Mae'r plant sy'n dair oed yn sefydlu perthynas dda gyda phlant eraill a chydag oedolion. Mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn rhagorol i brofiadau newydd. Mae eu hymddygiad yn y dosbarth, mewn gweithgareddau y tu allan ac mewn sesiynau canu torfol yn dda. Deallant fod angen dilyn rheolau o fewn y dosbarth a chydymffurfio yn ystod sesiynau dosbarth a gwaith grŵp. Gall y mwyafrif wneud dewisiadau annibynnol yn eu gweithgareddau. Mae'r rhan fwyaf wedi dysgu sut i rannu a chymryd eu tro'n rhagorol, a deallant fod rhaid rhoi cyfle i blant eraill ar brydiau. Mae'r mwyafrif yn deall bod golchi dwylo yn bwysig ar gyfer glendid personol.

Derbyn

157. Gall y rhan fwyaf o'r plant pedair oed ganolbwyntio'n rhagorol am gyfnodau estynedig mewn sesiynau torfol, o fewn eu grwpiau ffocws ac o fewn grwpiau oedran cymysg. Mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn rhagorol yn ystod amser cylch. Maent yn hyderus a hapus wrth weithio'n unigol, mewn parau ac mewn grwpiau. Defnyddia'r rhan fwyaf y cyfrifiaduron a'r bwrdd gwyn rhyngweithiol yn rhagorol i dasgau amrywiol. Mae'r rhan fwyaf yn dangos sgiliau hunanreolaeth rhagorol wrth ddewis gweithgareddau ac wrth gyflawni tasgau. Mae eu hymddygiad yn y dosbarth ac yn y gofod dysgu y tu allan yn dangos ystyriaeth i anghenion eraill ac i'w hanghenion eu hunain. Cymerant gyfrifoldeb cyson am dacluso, am helpu ei gilydd i wisgo ac am ofalu am y plant lleiaf.

Diffygion

158. Nid oes diffygion pwysig.

Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion da a rhagorol

Meithrin

159. Mae'r rhan fwyaf o'r plant tair oed yn dysgu'n fuan iawn i wrando ar oedolion ac ar ei gilydd. Maent yn talu sylw ac ymateb i storïau, rhigymau a chaneuon syml yn rhagorol. Mae'r rhan fwyaf yn gynyddol annibynnol wrth berthnasu lluniau, rhifau a geiriau mewn gemau ar y cyfrifiaduron a'r bwrdd gwyn rhyngweithiol.
160. Dangosa'r mwyafrif sgiliau cyfathrebu rhagorol wrth chwarae rôl yn nhŷ'r tair arth, ac wrth chwarae gyda'r pypedau yn y goedwig dywyll. Deallant fod gwranddo ar stori yn hwyl, a bod llyfrau yn bethau i'w mwynhau. Defnyddiant amrywiaeth o offer yn dda iawn i wneud marciau ar bapur.

Derbyn

161. Mae'r rhan fwyaf o'r plant pedair oed yn gwranddo'n dda i ddeall pwrpas y tasgau a'r gweithgareddau amrywiol. Mae'r mwyafrif yn ymateb yn rhagorol i storïau, rhigymau a chaneuon syml. Dysga'r rhan fwyaf eirfa estynedig wrth wrando a'i defnyddio'n rhagorol wrth ateb a gofyn cwestiynau. Mae'r rhan fwyaf yn awyddus i fynegi barn. Mae'n agos at hanner y plant yn creu deialogau rhagorol wrth chwarae rôl ym mwthyn y tair arth ac yn y goedwig dywyll.
162. Mae'r mwyafrif yn gallu enwi llythrennau'n gywir, gan gysylltu symbol a sŵn, ac enwi gwrthrychau sy'n dechrau gyda'r symbol. Mae'r mwyafrif yn llwyddo i ffurfio ystod dda o lythrennau'n annibynnol. Mae'r rhan fwyaf yn medru adnabod geiriau'n gywir yn y gemau iaith ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol a'r cyfrifiaduron a defnyddiant lyfrau yn gywir.

Diffygion

163. Nid oes diffygion pwysig

Datblygiad mathemategol

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion da a rhagorol

Meithrin

164. Mae llawer o'r plant tair oed yn gallu enwi rhifau o 1-5 yn y drefn gywir. Mae gallu'r mwyafrif i ddidoli, cyfateb a threfnu gwrthrychau yn dda iawn. Mae eu dealltwriaeth o 'mawr', 'canolig' a 'bach' yn rhagorol wrth iddynt drefnu tedis yn ôl eu maint a gwneud tyrau gyda blociau adeiladu amrywiol.

Derbyn

165. Mae rhan fwyaf y plant pedair oed yn defnyddio rhifau'n hyderus wrth gyfrif ymlaen ac yn ôl. Mae ganddynt ddealltwriaeth ragorol o gyfatebiaeth nifer o wrthrychau i symbolau. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o drefnolion syml megis 'cyntaf' ac 'ail', a 'mawr', 'canolig' a 'bach'. Gall y rhan fwyaf ail adrodd patrymau a chreu dilyniannau rhagorol ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol.

Diffygion

166. Nid oes diffygion pwysig

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion da a rhagorol

Meithrin

167. Mae gan y rhan fwyaf o'r plant tair oed ymwybyddiaeth dda o fywyd yn y goedwig a pha synhwyrâu y dylid eu defnyddio yno yn y tywyllwch. Gwyddant fod y dail yn newid lliw a chwmpo yn yr hydref a bod angen dillad cynnes ar gyfer y gaeaf. Maent yn gwybod bod dathliadau pen-blwydd a'r Nadolig yn agweddau pwysig o fywyd.

Derbyn

168. Mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o'r plant pedair oed o nodweddion coedwig yn datblygu'n rhagorol. Trwy edrych ar luniau a thrafod llyfrau, mae'r rhan fwyaf wedi cyfrannu tuag at greu 'coedwig dywyll' yn yr Ardal Byd Bach. Maent yn defnyddio eu synhwyrâu yn rhagorol i ddarganfod pethau yn y goedwig drwy arogl i a themlo. Mae llawer yn ddigon hyderus i brofi cerdded drwy'r pwll mwd a neidio i'r 'afon' a grëwyd ganddynt.

Diffygion

169. Nid oes diffygion pwysig

Datblygiad corfforol

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Meithrin

170. Gall y mwyafrif o'r plant tair oed ymdrin ag amrywiaeth o offer i wneud marciau da ar bapur. Gallant balu yn y tywod a chymysgu dŵr a phridd i greu mwd. Dengys y mwyafrif ymwybyddiaeth dda o ofod wrth iddynt symud o un gweithgaredd i'r nesaf, a rheolant eu cyrff yn dda wrth gerdded, neidio a rhedeg. Gallant lywio berfa ac offer mawr yn rhagorol. Datblygant sgiliau rheoli rhagorol wrth ddefnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol a'r llygoden gydag amrediad o feddalwedd TGCh.

Derbyn

171. Mae'r rhan fwyaf o'r plant pedair oed yn rheoli eu sgiliau corfforol yn dda. Maent yn trafod offer amrywiol yn y gweithgareddau grŵp, gan gynnwys gludo dail i wneud coron a chreu model 3D o goedwig. Dangosant allu da i redeg a neidio. Mae'r rhan fwyaf yn medru rheoli'r llygoden yn eu gweithgareddau TGCh yn rhagorol i greu llun a chwarae gemau. Defnyddiant offer a deunyddiau amrywiol i greu lluniau a modelau da o'r goedwig.

Diffygion

172. Nid oes diffygion pwysig.

Datblygiad creadigol

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion da a rhagorol

Meithrin

173. Mae'r plant tair oed yn gallu canu nifer o rigymau a chaneuon iaith a rhif yn dda. Maent yn canu'n ddigyfeiliant ac yn dangos ymwybyddiaeth ragorol o rythm. Mae'r mwyafrif yn canu ystod dda o ganeuon gyda mwyniant.

Derbyn

174. Mae mwyafrif y plant pedair oed yn gwneud dewisiadau annibynnol o gyfryngau i greu darluniau o'r goedwig. Llwyddant i greu model o'r goedwig gan ddewis a chymysgu bob mathau o ddeunyddiau addas. Mae'r rhan fwyaf yn geirio'n glir a chadw rhythm yn rhagorol wrth adalw nifer o rigymau, hwiangerddi ac emynau i'r cof.
175. Mae'r rhan fwyaf yn chwarae rôl yn rhagorol. Maent yn gynyddol hyderus wrth wisgo i fyny ym mwthyn y tair arth ac yn y goedwig dywyll.

Diffygion

176. Nid oes diffygion pwysig.

Cymraeg iaith gyntaf

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 1 - Da gyda nodweddion rhagorol

Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1 - Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

177. Mae safonau gwaith ysgrifenedig bron bob disgybl yn y ddau gyfnod allweddol yn rhagorol. Bron yn ddi-feth, yn enwedig ar ôl ail-ddrafftio, mae disgyblion ar draws yr ystod oed a gallu yn ysgrifennu'n hynod o estynedig mewn Cymraeg graenus ac mewn amryw o gyweiriau a ffurfiau. Mae gwaith y disgyblion galluocaf yn B2 yn dangos amrywiaeth dda o gystrawennau a geirfa dda. Erbyn B6, mae gwaith ysgrifenedig llenyddol mwyafrif y disgyblion yn dangos dychymyg ac empathi ac mae brawddegau'r disgyblion galluocaf yn esmwyth a naturiol.
178. Mae safonau gwaith llafar y disgyblion hefyd yn rhagorol. Siarada bron bob un, yn ôl oed a gallu, yn estynedig mewn Cymraeg naturiol a chywir. Mae geirfa ambell i unigolyn yn eang iawn. Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn adrodd hanes yn eglur gan fynegi barn yn glir a rhoi ymateb personol i sefyllfa. Erbyn B6, mae bron bob disgybl yn gallu trafod llên yn estynedig ac yn aeddfed gan ddefnyddio termau llenyddol priodol yn rhwydd.
179. Mae safonau darllen ar goedd yn rhagorol. Mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn llyfn gyda mynegiant clir a dealltwriaeth ragorol o'r cynnwys. Os cyfyd anawsterau wrth ddarllen, megis gair anghyffredin, mae gan yr holl ddisgyblion yr hunan hyder a'r strategaethau priodol i ymdopi.

Nodweddion da

180. Mae disgyblion sydd ag AAA yn gwneud cynnydd da yn yr holl sgiliau iaith.
181. Mae bron bob disgybl yn hoffi darllen a gallant ddisgrifio'n dda eu holl lyfrau Cymraeg.
182. Mae gan y disgyblion wybodaeth dda am nodweddion iaith, megis priod-ddulliau, cymariaethau ac ansoddeiriau, sy'n cyfoethogi'r iaith ysgrifenedig a llafar.
183. Mae safonau atalnodi a pharagraffu ynghyd â safon llawysgrifen mwyafrif y disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn dda.

Diffygion

184. Nid oes diffygion pwysig.

Dylunio a thechnoleg

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 1 - Da gyda nodweddion rhagorol

Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1 - Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

185. Gŵyr holl ddisgyblion cyfnod allweddol 1 a 2 fod gan y broses o ddylunio, gwneud a gwerthuso gysylltiad uniongyrchol â'r byd go-iawn, ac mae nifer fawr o'r unedau gwaith a gwblhânt yn adlewyrchu hynny'n rhagorol. Er enghraifft, maent wedi dylunio a chreu offer defnyddiol i drigolion Monde yn Uganda, a chysylltiad gyda siop leol wrth ddylunio pitsas a'u cynhwysion.
186. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r holl ddisgyblion yn defnyddio ystod briodol o fedrau TGCh yn rhagorol i gefnogi eu gwaith dylunio a chynhyrchu. Gall holl ddisgyblion B1 ddefnyddio rhaglenni masnachol i ddylunio ffedogau addas ar gyfer dibenion gardd. Gall disgyblion y ddau gyfnod allweddol ddefnyddio'r we yn effeithiol i ymchwilio syniadau ar gyfer eu cynhyrchion eu hunain. Gall mwyafrif disgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol CAD yn eu gwaith ar ddylunio inclein.
187. Gall mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 1 gynllunio'n systemataidd drwy ystyried yn ofalus a nodi'r deunyddiau a'r offer y byddant ei angen, er enghraifft i ddylunio a chreu tegan sy'n symud.
188. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 yn gallu gwerthuso eu cynnyrch gorffenedig yn synhwyrol gan ddangos sut y gellir gwella arnynt.
189. Gall bron pob un o ddisgyblion iau cyfnod allweddol 2 gymhwyso eu dealltwriaeth o liferi a cholynnau yn rhagorol i ddylunio a chreu llyfr stori gyda thudalennau'n codi ar gyfer disgyblion y dosbarth sylfaen. Gall y mwyafrif werthuso eu gwaith yn ddeallus.

Nodweddion da

190. Mae disgyblion o'r ddau gyfnod allweddol yn llwyddo i gynhyrchu dyluniadau gwreiddiol ac i wneud cynnyrch o ansawdd da o ystod eang a phriodol o ddeunyddiau ac offer sy'n addas at y pwrpas.
191. Mae holl ddisgyblion o'r ddau gyfnod allweddol yn defnyddio geirfa dechnolegol briodol. Yn eu gwaith tecstilau gall y rhan fwyaf o ddisgyblion B1 drafod eu gwaith gan ddefnyddio termau penodol megis cryf, hyblyg, rhwygo, trwchus, tenau, addas ac anaddas yn ogystal â thermâu gwneud megis mesur, uno a gwnïo.
192. Mae bron bob un o ddisgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn deall technoleg rheoli ac yn ei ymgorffori mewn rhai o'r prosiectau dylunio. Gallant ddefnyddio offer rheoli cyfrifiadurol i ddylunio a chreu dyfeisiadau diogelu rhag lladron. Gallant brofi'r cynnyrch yn erbyn y fanyleb ddylunio gychwynnol, a nodi gwelliannau.

193. Gall bron bob un o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddefnyddio ystod briodol o fedrau TGCh i ymchwilio a datblygu eu syniadau, a defnyddiant fodelau a chitiau adeiladu yn gelfydd i ddatblygu eu syniadau cychwynnol.
194. Gweithreda'r holl ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol fesurau iechyd a diogelwch priodol wrth ddefnyddio offer a thaclau i fesur, marcio, torri, llifio a siapio. Deallant oll bwysigrwydd hylendid wrth ymdrin â thasgau sy'n ymwneud â pharatoi bwyd.

Diffygion

195. Nid oes diffygion pwysig.

Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig **Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

Nodweddion da

196. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 1 yn llunio darnau o waith ysgrifenedig yn effeithiol ar y sgrin gan addasu'r testun yn ôl y gofyn. Gallant lunio llyfrynnau syml yn electronig.
197. Gall llawer arbed eu gwaith gyda chymorth, a'r mwyaf galluog yn ei arbed, ei adfer a'i addasu cyn ei argraffu. Maent yn bwydo gwybodaeth i gronfa ddata parod yn gywir a'i gynrychioli ar ffurf graff syml
198. Gall holl ddisgyblion cyfnod allweddol 1 ddefnyddio llygoden yn hyderus i symud delweddau ar y sgrin. Defnyddiant becynnau arlunio masnachol yn effeithiol i greu lluniau a phatrymau, ac maent yn deall y gallant ddadwneud ac ail-wneud gweithred ar y sgrin.
199. Mae bron bob un yn deall sut i reoli symudiad tegan llawr, BeeBot, trwy fwydo cyfarwyddiadau iddo. Gallant wneud hyn yn annibynnol, ac maent yn trafod eu gwaith yn hyderus a deallus.
200. O ddechrau cyfnod allweddol 1 ymlaen, dengys llawer o'r disgyblion ar draws yr ysgol ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad da o'r bwrdd gwyn rhyngweithiol. Maent yn ei ddefnyddio'n dda ac yn mwynhau gwneud hynny'n annibynnol neu gydag eraill, er enghraifft i ddatrys problemau mathemategol neu i archwilio mapiau Google Earth o'u milltir sgwâr.
201. Gall mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 2 drefnu, addasu a chyflwyno gwybodaeth yn dda. Ar draws y cyfnod allweddol, mae'r holl ddisgyblion yn dod yn fwy hyfedr wrth ddefnyddio dulliau electronig i rannu a chyfnewid gwybodaeth. Mae bron bob un yn darganfod gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys safleoedd ar y we a'i addasu i bwrpasau penodol yn ymwneud â'u gwaith ar draws y cwricwlwm. Dônt yn gynyddol hyderus ac annibynnol gan gadw ac adfer eu gwaith a'i addasu trwy newid ffont a gosod borderi.
202. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, dengys mwyafrif y disgyblion feistrolaeth gadarn o brosesu geiriau a defnyddiant amrywiaeth eang o dechnegau'n hyderus er mwyn gosod, golygu a chreu effaith, er enghraifft, wrth greu stori mewn lluniau. Maent yn fedrus wrth symud testun a llun o un ddogfen i'r llall ac wrth ddarparu cyflwyniad aml-gyfrwng. Gallant gynnwys eu lleisiau eu hunain a cherddoriaeth o fewn rhaglen fasnachol i greu cyflwyniadau effeithiol.
203. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio taenlenni yn hyderus i fwydo gwybodaeth am werthiant eu stondin flodau ac i ddadansoddi incwm a thaliadau er mwyn adnabod patrymau a gwneud newidiadau.

204. Defnyddia bron bob un flwch rheoli'n effeithiol i reoli sain a golau mewn gwaith dylunio a thechnoleg. Maent yn trafod materion sy'n ymwneud â diogelwch ar y rhynggrwyd yn gyfrifol.
205. Gwna bron bob un o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddefnydd effeithiol o raglen i greu siapiau rheolaidd yn eu gwaith mathemateg. Dangosant ddealltwriaeth dda o sut i greu gweithdrefnau ac amrywio'r gwerthoedd ynddynt er mwyn newid maint a chyfeiriad siâp.
206. Defnyddia llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 raglen gyfrifiadurol yn effeithiol i gyfansoddi cerddoriaeth.

Diffygion

207. Nid oes diffygion pwysig.

Celf a dylunio

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 1 - Da gyda nodweddion rhagorol

Cyfnod Allweddol 2: Gradd 1 - Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

208. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 yn cynhyrchu amrediad o batrymau a lluniau rhagorol wrth ddysgu technegau newydd a darganfod arlliw mewn bywyd llonydd a thôn mewn tirluniau.
209. Yn B1, mae llawer yn cyrraedd safonau rhagorol wrth arbrofi gyda phensiliau lliw, creonau, sialc, pasteli meddal, inc a phapur wrth gynllunio gardd yn yr ardal allanol, sef y 'cwad' sydd wedi ei leoli yng nghanol yr adeilad. Mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd safonau da iawn wrth efelychu arddulliau Ogwyn Davies a Paul Cézanne.
210. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion B2 yn gwneud defnydd rhagorol o amrediad eang o gyfryngau i greu murlun lliwgar o gymeriadau Llyfr Mawr y Plant. Mae llawer yn cyrraedd safonau rhagorol wrth efelychu patrymau blodeuog ac ailadroddus Laura Ashley.
211. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyrraedd safonau rhagorol wrth ymateb i ymweliadau a phrofiadau eang. Maent yn defnyddio amrywiaeth eang o sgiliau, deunyddiau, offer a chyfryngau gan weithio'n annibynnol i gyfleu eu teimladau.
212. Mae llawer o ddisgyblion B4 yn creu lluniadau rhagorol gan arbrofi â thechnegau a chyfryngau amrywiol i ymateb i'w hymweliadau â manau hanesyddol lleol.
213. Mae llawer o ddisgyblion B5 yn cyrraedd safonau rhagorol wrth gynllunio a gwneud gwrthrychau, delweddau ac arteffactau mewn dau a thri dimensiwn. Maent yn ymdrin ag amrywiaeth o ddefnyddiau i efelychu gwaith Mary Lloyd Jones ac i ail-gynhyrchu arddulliau Oes y Tuduriaid.
214. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion B6 yn cyrraedd safonau rhagorol wrth ddethol cyfrwng, deunydd ac arddull i luniadu delweddau trawiadol i adlewyrchu technegau Kyffin Williams.

Nodwedd dda

215. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion B3 yn cynhyrchu gwaith diddorol o safon uchel wrth arbrofi gyda gwlan lliwgar, gwres a sebon golchi i greu patrymau trawiadol o gylchoedd amryliw.

Diffygion

216. Nid oes diffygion pwysig.

Addysg grefyddol

Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

217. Yn y ddau gyfnod allweddol mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth dda o 'gwestiynau mawr', megis 'da a drwg' a 'gwylltio'n gyfiawn' gyda mwyafrif y disgyblion yn gallu diffinio eu hymateb i'r dewisiadau a wnânt, a'u cyfrifoldeb tuag at eraill.
218. Mae holl ddisgyblion y ddau gyfnod allweddol yn ymwybodol o ddathliadau Cristnogol, megis y Nadolig. Mae'r mwyafrif hefyd yn ymwybodol o ddathliadau crefyddau eraill, megis Gŵyl Divali.
219. Mae gan fwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 1 wybodaeth dda am gapel neu eglwys fel man addoli ynghyd â mannau addoliad crefyddau eraill, gyda mwyafrif disgyblion B2 yn arddangos gwybodaeth dda a pharch at arferion Hindŵaidd ac yn gwybod beth sy'n digwydd mewn Mehndi .
220. Mae unigolion yng nghyfnod allweddol 1 yn gallu llunio gweddïau personol, byr o ansawdd da.
221. Mae bron bob disgybl yn B3 yn deall yr angen i gydnabod camgymeriad ac i ofyn am faddeuant. Gall y mwyafrif egluro camgymeriadau a wnaethant ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae bron bob un yn deall bod angen i edifeirwch fod yn onest.
222. Mae gan bron bob disgybl B4 wybodaeth dda o rai o arferion ac arteffactau Iddewiaeth a dônt i barchu traddodiadau crefyddol gwahanol i Gristnogaeth.
223. Mae holl ddisgyblion B5 yn deall pwysigrwydd rheolau, ac mae mwyafrif y disgyblion yn gallu creu, addasu a dehongli rheolau addas.
224. Mae holl ddisgyblion B6 yn ymwybodol o rôl elusen, megis Cymorth Cristnogol, ei ddiben, ei ddull o weithredu a'r effaith da a gaiff ar y trydydd byd. Mae disgyblion galluocaf B6 yn gallu dehongli cysyniadau Beiblaidd, megis stori'r Samariad Trugarog a'i chymhwyso i'r sefyllfa gyfoes.

Diffygion

225. Nid oes diffygion pwysig.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae canfyddiadau'r arolygiad yn destun balchder i bawb sy'n ymwneud â'r ysgol, ac yn adlewyrchiad o ymroddiad, gwaith caled a phroffesiynoldeb staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni.

Cadarnhawyd canlyniadau hunan arfarniad yr ysgol mewn pedwar o'r saith cwestiwn allweddol, a rhagorwyd ar y tri arall, gan amlygu'r nodweddion mewn blaengareddau diweddar.

Mae'r gydnabyddiaeth fod safonau addysgu Ysgol Bontnewydd yn rhagorol, ac yn 'rhagori o lawer' ar ganrannau cyfartalog Cymru gyfan, yn destun balchder ac yn dystiolaeth o ymroddiad a gweithgarwch holl staff dysgu ac ategol yr ysgol.

Yr ydym yn ymfalchïo yn fawr yn y ffaith y cydnabyddir bod y disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol yn eu dysgu wrth ddatblygu'r medrau sy'n angenrheidiol ar gyfer dysgu gydol oes.

Cydnabuwyd bod ansawdd ac amrywiaeth profiadau dysgu'r disgyblion yn rhagorol a bod y plant yn amlwg yn mwynhau ac yn elwa o'r profiadau cyfoethog a gwerthfawr a ddarperir.

Rydym yn falch o'r farn bod gan yr ysgol "ymdeimlad clir o bwrpas" sydd yn cael ei gynnal gan werthoedd ac ethos cyfrannol a chydweithio effeithiol mewn awyrgylch deuluol, gyfeillgar.

Mae cyflawni'r graddau gorau posibl ym mhob un o'r saith cwestiwn allweddol yn brawf o waith tîm effeithiol ac ethos cynhaliol y staff, ynghyd â chefnogaeth ddiflino aelodau'r Corff Llywodraethol.

Hoffai'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr ddiolch i'r tîm arolygu am y modd proffesiynol, trylwyr a theg y cynhaliwyd yr arolygiad. Roedd yr arolygiad yn brofiad cadarnhaol ac adeiladol. Bydd yn ein cynorthwyo i osod sylfaen ar gyfer gwelliant pellach trwy adeiladau ar ein cryfderau a thrwy baratoi cynllun gweithredu'n dilyn yr arolygiad a gyflwynir i'r AU a chyfranogwyr yr ysgol.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gynradd Bontnewydd
Math o ysgol	Cynradd, naturiol ddwyieithog, cymunedol
Ystod oedran y disgyblion	3-11
Cyfeiriad yr ysgol	Bontnewydd, Ger Caernarfon, Gwynedd
Cod post	LL55 2UF
Rhif ffôn	01286673880

Pennaeth	Mrs Janet Wyn George
Dyddiad penodi	Medi 2009
Cadeirydd y llywodraethwyr / Awdurdod priodol	Dr Edwin Williams
Arolygydd cofrestredig	Gareth Wyn Roberts
Dyddiadau'r arolygiad	30/11/09-2/12/09

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	7.5	19	14	27	21	29	24	29	170.5

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	7.5	5	8.5

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	27:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	8:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	amherthnasol
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	27
Cymhareb athro (call): dosbarth	1.1:1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Hydref 2008	93.8	93.8	96.6
Gwanwyn 2009	95.1	95.6	94.4
Haf 2009	93.9	93.7	95.6


Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	6%
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	dim

Atodiad 3


Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2009 gyda meincnodi Cyfnod Allweddol 1

Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwylidig o leiaf (Lefel 2+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2009	AALI 2009	Cymru 2009	Ysgol 2009	AALI 2009	Cymru 2009	Ysgol 2009	AALI 2009	Cymru 2009
Saesneg	-	85	78	-	75	88	-	81	83
Cymraeg	100	90	87	100	93	93	100	91	90
Mathemateg	100	87	85	100	89	89	100	88	87
Gwyddoniaeth	100	90	88	100	91	92	100	90	90
DPC	100	83	77	100	86	85	100	84	81



Perfformiad yr ysgol dros amser (2005 - 2009)



Gwybodaeth gyd-destunol

Weddi'i meincnodi yn erbyn ysgol â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim

Nodwyd canlyniadau'r ysgol yn y blychau llwyd. Mae penawdau'r colofnau yn cyfeirio at:

Chwartzel 1 Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf

Grŵp Prydau Ysgol am Ddim

Chwartzel 2 Mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf ond nid y 25% uchaf

Llai na 8% yn gymwys i gael Pryd Ysgol am Ddim

Chwartzel 3 Mae'r ysgol ymhlith y 50% isaf ond nid y 25% isaf

Chwartzel 4 Mae'r ysgol ymhlith y 25% isaf

	Chwartzel 4	Ffin Chwartzel Isaf	Chwartzel 3	Ffin Canolrif	Chwartzel 2	Ffin Chwartzel Uchaf	Chwartzel 1
Saesneg		86		92		100	
Cymraeg		85		100		100	
Mathemateg		88		96		100	
Gwyddoniaeth		92		100		100	
DPC		82		90		100	

Nodiadau:


1. Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyrhaeddiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
2. DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. I sicrhau DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 2 disgwylidig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf

3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlich ar gyfer y flwyddyn honno.


Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2009 gyda meincnodi Cyfnod Allweddol 2

Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig o leiaf (Lefel 4+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2009	AAI 2009	Cymru 2009	Ysgol 2009	AAI 2009	Cymru 2009	Ysgol 2009	AAI 2009	Cymru 2009
Saesneg	91	79	76	89	91	87	90	85	81
Cymraeg	91	75	73	89	90	86	90	82	80
Mathemateg	91	82	80	89	87	85	90	84	82
Gwyddoniaeth	91	85	84	89	91	89	90	88	86
DPC	91	78	73	89	86	82	90	81	77



Perfformiad yr ysgol dros amser (2005 - 2009)



Gwybodaeth gyd-destunol

Wedi'i meincnodi yn erbyn ysgol â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim Nodwyd canlyniadau'r ysgol yn y blychau llwyd. Mae penawdau'r colofnau yn cyfeirio at:

- Chwarter 1 Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf
- Chwarter 2 Mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf ond nid y 25% uchaf
- Chwarter 3 Mae'r ysgol ymhlith y 50% isaf ond nid y 25% isaf
- Chwarter 4 Mae'r ysgol ymhlith y 25% isaf

Grŵp Prydau Ysgol am Ddim

Llai na 8% yn gymwys i gael Pryd Ysgol am Ddim

	Chwarter 4	Ffin Chwarter Isaf	Chwarter 3	Ffin Canolrif	Chwarter 2	Ffin Chwarter Uchaf	Chwarter 1
Saesneg		84		90		100	
Cymraeg		75		88	90		100
Mathemateg		84	90		92		100
Gwyddoniaeth		89	90		97		100
DPC		80		88	90		96

Nodiadau:

- Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyrhaeddiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
- DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. I sicrhau DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 4 disgwyliedig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf
- Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwll ar gyfer y flwyddyn honno.

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd pum arolygydd, gan gynnwys enwebai'r ysgol, gyfwerth â deg diwrnod arolygu yn yr ysgol, a chyfarfod fel tîm cyn dechrau'r arolygiad.

Ymwelodd yr arolygwyr hyn â:

- 37 o wersi neu rannau o sesiynau
- sesiynau cofrestru, gwasanaethau ac addoli ar y cyd:ac
- ystod o weithgareddau allgyrsiol.

Cafodd aelodau o'r tîm arolygu gyfarfodydd â:

- staff, llywodraethwyr a rhieni cyn yr arolygiad;
- uwch reolwyr, athrawon a staff cymorth a gweinyddol;a
- chyingor yr ysgol.

Roedd y tîm hefyd wedi ystyried:

- adroddiad hunan arfarnu'r ysgol;
- ymddygiad ac agweddau disgyblion;
- 22 ymateb i'r holiadur i rieni a 3 sylw neu lythyr;
- ymateb gan yr Awdurdod Addysg;
- dogfennau a ddarparwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad;
- amrediad eang o waith blaenorol a phresennol disgyblion, a
- samplau o adroddiadau disgyblion

Yn dilyn yr arolygiad cynhaliodd y tîm gyfarfodydd ag uwch reolwyr a llywodraethwyr.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
Mr Gareth Wyn Roberts Arolygydd Cofrestredig	Cyd-destun, cwestiwn allweddol 1, 5, 6, atodiadau, Cymraeg, addysg grefyddol
Mr John Roberts Arolygydd Lleyg	Cyfrannu i gwestiwn allweddol 1, 3, 4 a 7
Dr Prydwen Elfed -Owens Arolygydd Tîm	Cwestiwn allweddol,4 a 7, Cyfnod Sylfaen (oed meithrin a derbyn), celf a dylunio
Mr Dafydd Thomas Arolygydd Tîm	Cwestiwn allweddol 2 a 3, dylunio a thechnoleg, Technoleg gwybodaeth
Mrs Janet Wyn George	Enwebai'r ysgol
Nid oedd asesydd cymheiriad ar gyfer arolygiad yr ysgol hon	

Contractwr: Cwmni Cynnal
Stryd y Bont
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7HL

Cydnabyddiaeth

Dymuna'r arolygwyr fynegi eu diolch i lywodraethwyr, pennaeth, staff, disgyblion a rhieni'r ysgol am eu cydweithrediad parod yn ystod yr arolygiad.